



PAPUR BRIFFIO

Mawrth 2021

TUAG AT FWY O ANSICRIFYDD

Effaith anghyfartal y cyfnodau cyfyngiadau symud ar famau a rhieni sydd ar incwm is yng Nghymru

1. CYFLWYNIAD

Un flwyddyn o ddechrau'r cyfnod cyfyngiadau symud cyntaf, dengys ymchwil arolwg barn fod effaith ariannol ac economaidd y cyfnodau cyfyngiadau symud wedi atgyfnerthu anghydraddoldebau a oedd yn bodoli cyn y pandemig i fenywod, yn enwedig lle mae gan fenywod hunaniaethau rhyngblethedd.

Dengys un arolwg fod effaith anghyfartal cau ysgolion, diwydiannau sydd wedi cau, ffyrlo a threfniadau gweithio hyblyg yn wahanol iawn rhwng mamau a thadau; y sawl ar incwm llai ac incwm uwch¹; grwpiau gwyn a du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME); a phobl anabl o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl. Er bod bywydau a gwaith pawb wedi'u heffeithio gan COVID-19, mae swyddi a bywoliaethau mamau, gan gynnwys mamau ar incwm isel, mamau o gymunedau BAME a mamau anabl, wedi cael eu heffeithio'n arbennig o negyddol.

Heb unrhyw amheuaeth, mae'r argyfwng iechyd yn argyfwng anghydraddoldeb, gan ddangos yr hiliaeth a'r ffafriaeth strwythurol tuag at bobl abl sydd wrth wraidd ein gwlad. O ran yr economi a swyddi, canfodd ein harolwg barn fod pobl anabl a phobl BAME yn fwy tebygol o wedi colli oriau gwaith (BAME 48% yn erbyn 23% o bobl wynion ac i bobl anabl 31% yn erbyn 23% o bobl heb anabledau). Yn ôl yr arolwg barn hefyd, roedd menywod yng Nghymru'n fwy tebygol na dynion o fod wedi colli eu swyddi oherwydd bod eu busnes wedi cau (18% yn erbyn 11%) ac roedd pobl BAME yn fwy tebygol na phobl wynion o deimlo eu bod wedi cael eu dewis i dderbyn ffyrlo mewn ffordd annheg (28% yn erbyn 6%).

Er mwyn atal rhagor o fenywod rhag gadael y gwaith neu fynd i dlodi, ac i atal gwyrddroad cyflym degawdau o gynnydd ar gydraddoldeb rhyw, mae'n rhaid i ni fuddsoddi yn y sector gofal plant a sicrhau ein bod yn gweld Cynllun Economaidd i Fenywod yn benodol yn adferiad Cymru. Mae llawer o bobl wedi dweud bod angen Adferiad Gwyrdd ond mae hynny'n debygol o eithrio hanner y boblogaeth. Mae'n rhaid i ni weld Adferiad Gwyrdd a Gofalgar.

Cynhaliwyd yr arolwg fel partneriaeth rhwng Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru, Grŵp Cyllidebu Menywod, Cymdeithas Fawcett, Engender, Cau'r Bwlch a Grŵp Cyllidebu Menywod Gogledd Iwerddon. Mae modd gweld canlyniadau'r DU [yma](#). Mae'r papur briffio hwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n benodol i Gymru.²

TUDALEN 2

¹ Wrth gymharu data'n seiliedig ar incwm aelwydydd, mae'r holl gyfeiriadau at aelwydydd incwm is yn golygu enillion aelwyr o £0 i 19,999 y flwyddyn. Mae'r rheiny y cyfeirir atynt fel aelwydydd incwm uwch yn ennill £40,000+ y flwyddyn.

² Roedd sampl y boblogaeth yn rhieni – mamau a thadau – yng Nghymru gyda phlant dan 14 oed, a maint y sampl oedd 613.

2. GORBRYDER

Dywedodd menywod yng Nghymru eu bod yn profi lefelau uwch o orbryder na dynion.

Wrth ofyn y cwestiwn, 'pa mor orbryderus roeddech yn ei deimlo ddoe?', gwnaeth 43% o fenywod a 26% o ddynion ddewis o leiaf 6 allan o 10 ar raddfa lle mae 10 yw 'gorbryderus tu hwnt' a 0 yw 'nid yn orbryderus o gwbl'. Roedd rhieni sengl yn profi lefelau uwch o orbryder na rhieni priod; dywedodd 41% o rieni sengl fod eu gorbryder dros 6 allan o 10 o gymharu â 33% o rieni priod a 31% o rieni sy'n cyd-fyw.

Mae menywod a dynion yng Nghymru'n poeni am ragolygon swyddi: roedd 49% o fenywod a 46% o ddynion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno i raddau eu bod yn poeni am eu rhagolygon swyddi. Mae'r ffigur hwn yn uwch ymhlith ymatebwyr anabl a BAME gyda sgôr o 53% a 50% yn ôl eu tro.

MAE RHCM CYMRU'N ARGYMELL Y CANLYNOL:

- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn darpariaethau iechyd meddwl i'r rhai hynny yr effeithir arnynt yn anghyfartal gan y pandemig, o staff rheng flaen i'r boblogaeth gyffredinol

PA MOR BRYDERUS RYDYCH YN TEIMLO HEDDIW?

0 = ddim yn bryderus o gwbl
10 = yn hollol bryderus

**GWNAETH 43% O FENYWOD
26% O DDYNION**
ddweud o leiaf 6 allan o 10

**GWNAETH 41% O RIENI SENGL
33% O RIENI PRIOD SY'N CYD-
FYW**
ddweud o leiaf 6 allan o 10

3. CYFLOGAETH, FFYRLO A GWEITHIO HYBLYG

Gallai'r ffigurau gorbryder uwch ymhlith menywod fod oherwydd, ymhlith pethau eraill, colli swyddi, diffyg hyblygrwydd yn y gwaith, ynghyd â chyfrifoldebau gofalu ac aelwyd sy'n cael eu harchwilio isod.

3.1. COLLI SWYDDI A LLEIHOU ORIAU

Roedd menywod yng Nghymru'n fwy tebygol o golli eu swyddi oherwydd busnesau yn cau gydag 18% o fenywod yn colli eu swyddi o gymharu ag 11% o ddynion.

Roedd y data hefyd yn dangos bod pobl BAME ddwywaith mor debygol o golli oriau gwaith o gymharu â phobl gwyn (48% o bobl BAME yn erbyn 23% o bobl gwyn). Roedd pobl anabl hefyd yn wynebu colli swyddi'n fwy na phobl heb anabledau gyda 31% o bobl anabl yn colli oriau gwaith o gymharu â 23% o bobl heb anabledau.

Wrth ofyn am resymau wnaeth gyfrannu at golli swyddi neu golli oriau, dywedodd 10% o ymatebwyr o aelwydydd incwm-is ei fod oherwydd eu bod yn gwarchod am resymau meddygol a dywedodd 22% ei fod oherwydd eu

COLLI ORIAU GWAITH

48% BOBL BAME
o gymharu â
23% BOBL WYNIEN

31% BOBL ANABL
o gymharu â
**23% BOBL HEB
ANABLEDDAU**

TUDALEN 3

Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 18 Tachwedd a 4 Rhagfyr 2020. Yn ystod y cyfnod hwn roedd y DU wedi dod allan o'r cyfnod cyfyngiadau symud cyntaf ledled y DU a roedd gan lawer o siroedd yng Nghymru gyfnodau cyfyngiadau symud lleol, wedi'i ddilyn gan ail gyfnod cyfyngiadau symud ledled Cymru – cafwyd cyfnod cyfyngiadau symud byr o fis Hydref if is Tachwedd. Er y gwnaeth ysgolion barhau i fod ar agor yn ystod y cyfnodau cyfyngiadau symud yng Nghymru, roedd llaer o gyfyngiadau symud ychwanegol yn parhau i fod ar waith.

cyfrifoldebau gofalu. O gymhariaeth, dywedodd y rheiny o aelwydydd incwm-uwch fod 6% yn gwarchod a bod 2% wedi colli swyddi neu oriau gwaith oherwydd cyfrifoldebau gofalu.

3.2. GWEITHIO HYBLYG

Ystyrir yr opsiwn o gael hyblygrwydd yn y gwaith fel dymunol ymhlith menywod a dynion. O'r rheiny nad ydynt yn gallu gweithio'n hyblyg ar hyn o bryd, mae 58% o fenywod a 49% o ddynion yn cytuno yr hoffent wneud hyn. O'r rheiny sydd yn gweithio'n hyblyg, mae 84% yn cytuno y byddent yn hoffi i hyn barhau.

Roedd aelwyd ag enillion uwch ddwywaith mor debygol (38%) na'r rheiny sy'n ennill llai o fod yn gweithio'n hyblyg drwy weithio gartref/o bell cyn y pandemig. Ar adeg yr arolwg, gwnaeth y ffigurau hyn gynyddu i 51% o'r rheiny yn y grŵp enillwyr uwch ac i 33% yn y grŵp enillwyr is, gyda'r rheiny yn y grŵp uwch 9% yn fwy tebygol o gael amserau dechrau a gorffen hyblyg (39% o gymharu â 30% o'r rheiny yn yr aelwyd sy'n ennill llai).

Fodd bynnag, wrth ofyn i ba raddau yr oedd ymatebwyr a oedd yn gweithio'n hyblyg yn cytuno neu'n anghytuno bod opsiynau gweithio hyblyg yn eu swyddi'n diwallu eu hanghenion, roedd y rheiny yn yr aelwydydd a oedd yn ennill llai yn yn llawer fwy tebygol o gytuno'n gryf (54%) gyda 45% yn unig o'r rheiny mewn aelwydydd incwm uchel yn cytuno'n gryf â'r datganiad hwn.

Yn seiliedig ar y rheiny nad oeddent yn gweithio'n hyblyg, dim ond 16% o'r rheiny o aelwydydd ar incwm isel oedd yn dweud eu bod yn cytuno'n gryf y byddent yn hoffi cael yr opsiwn o weithio'n hyblyg. Roedd hyn yn uwch yn sylweddol ymhlith aelwydydd incwm uwch, ar 51%.

3.3. FFYRLO

Roedd cyfran uwch o ddynion a arolygwyr (44%) naill ai'n derbyn ffyrlo neu wedi bod yn ei dderbyn o gymharu â menywod (35%). Roedd 65% o weithwyr anabl yn derbyn ffyrlo, a oedd 25% yn uwch na gweithwyr nad oeddent yn anabl ar 40%. Roedd gweithwyr BAME hefyd yn gyfran uwch o ran derbyn ffyrlo ar 45%, o gymharu â 38% o weithwyr gwyn. Yr hyn sy'n syndod yw bod 16% yn unig o aelwydydd un rhiant yn derbyn ffyrlo, o gymharu â 39% o aelwydd priod a 54% o aelwydd sy'n cyd-fyw.

Wrth ofyn beth oedd y rheiny a oedd yn derbyn ffyrlo yn teimlo eu bod yn cyfrannu at benderfyniad ei gyflogwyr i'w rhoi ar ffyrlo, roedd y rheiny o aelwydydd ag incwm llai'n llawer llai tebygol o feddwl mai'r rheswm oedd y gallai eu cyflogwyr arbed arian ar eu cyflogau (15%) na'r rheiny ar £40,000+ y flwyddyn (50%), er bod aelwydd ar incwm llai dros ddwywaith mor debygol o feddwl eu bod wedi cael cynnig ffyrlo oherwydd eu bod yn gwarchod am resymau meddygol (14% i'r rheiny ar incwm isel o gymharu â 6% o'r rheiny mewn aelwydydd incwm uwch). Rhywbeth i boeni amdano yw bod 15% o'r rheiny ar incwm isel o gymharu â 2% ar incwm uwch wedi dweud eu bod yn teimlo fel eu bod wedi'u dewis yn annheg ar gyfer ffyrlo oherwydd eu hil, eu rhyw, eu hoedran, eu hanabledd neu eu cyflwr iechyd.

FFYRLO

Naill ai ar hyn o bryd neu o'r blaen

44% O DDYNION
o gymharu â
35% O FENYWOD

65% BOBL ANABL
o gymharu â
40% BOBL HEB
ANABLEDDAU

45% BOBL BAME
o gymharu â
38% BOBL WYNION

16% O RIENI SENGL
o gymharu â
39% O RIENI PRIOD
54% AELWYDD SY'N
CYD-FYW

Yn gyffredinol, roedd y rheiny ag incwm aelwyd uwch 8% yn fwy tebygol o gael cynnig ffyrlo (37%), o gymharu â'r rheiny ar incwm llai (29%). Roedd 9% o'r rheiny yn y grŵp incwm llai yn dweud eu bod wedi collie u prif swyddi, o gymharu â 4% yn y grŵp uwch.

MAE RHCM CYMRU'N ARGYMELL Y CANLYNOL:

- Cynlluniau cadw swyddi a chynlluniau hunangyflogaeth sy'n gweithio i bawb – gan gynnwys rhieni sengl a gweithwyr rhan-amser
- Mae angen fuddsoddiad ddarparu swyddi mewn amrywiaeth eang o ddiwydiannau, nid yn unig i ddiwydiannau sydd wedi'u dominyddu gan ddyinion - fel adeiladwaith
- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod yr Adferiad Gwyrdd yn Wyrdd AC yn Adferiad Gofalgar drwy fuddsoddi mewn Gofal
- Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi Cynllun Gweithredu i Fenywod yn yr Economi ar waith, fel y mae Canada wedi'i wneud

4. CYLLIDEB

Gwnaeth yr arolwg hefyd ddatgelu fod 49% o fenywod wedi dweud eu bod yn cael anhawster yn cael deupen llinyn ynghyd, o gymharu â 38% o ddyinion. Roedd hyn yn cael ei deimlo'n gryfach gan rieni sengl o gymharu â rhieni priod, oherwydd roedd 52% o rieni sengl yn teimlo fel eu bod yn cael ychydig o anhawster neu anhawster mawr yn cael deupen llinyn ynghyd o gymharu â 38% o rieni priod a 44% o rieni sy'n cyd-fyw. Er bod llai o ymatebwyr yn cydnabod felly, roedd 70% o rieni sydd wedi' ysgaru a 75% o rieni gweddw yn cael peth anhawster yn cael deupen llinyn ynghyd.

Roedd dros hanner yr ymatebwyr ag incwm aelwyd o lai na £20,000 y flwyddyn yn cytuno'n gryf (24%) neu'n cytuno i raddau (31%) eu bod yn cael anhawster cael deupen llinyn ynghyd ar hyn o bryd. Roedd ychydig dros chwarter o aelwydydd ag incwm blynyddol o £40,000+ yn dweud yr un peth, gydag 8% yn cytuno'n gryf, a 19% yn cytuno i raddau.

Roedd traean y rheiny o'r arolwg o aelwydydd ag incwm blynyddol is (llai na £20,000 y flwyddyn) wedi dweud eu bod yn anghytuno'n gryf eu bod yn well yn ariannol nag yr oeddent ar ddechrau 2020. Roedd hyn 11% yn is na'r rheiny yn y grŵp aelwydydd incwm uwch. Roedd 8% o'r rheiny o aelwydydd incwm isel yn cytuno'n gryf eu bod yn well yn ariannol, o gymharu ag 11% o'r rheiny sy'n ennill mwy.

Mae'r arolwg yn dangos yn glir bod menywod a rhieni sengl wedi cael eu heffeithio'n anghyfartal gan y pandemig ac os nad yw camau'n cael eu cymryd ar frys, bydd llawer mwy yn mynd i dlodi. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ailadeiladu'r economi'n ofalus ac yn gynhwysol, gyda menywod wrth ei wraidd.

CYLLID

Cael anhawster cael deupen llinyn ynghyd

49% O FENYWOD

o gymharu â

38% O DDYNION

52% O RIENI SENGL

o gymharu â

38% O RIENI PRIOD

44% AELWYDD SY'N CYD-FYW

70% RHINI SYDD WEDI YSGARU

75% RHINI GWEDDW

MAE RHCM CYMRU'N ARGYMELL Y CANLYNOL:

- Mae angen i gymorth ariannol yn ystod y pandemig gefnogi rhieni'n gyfwerth, ac nid ffafrio aelwydydd dau riant
- Dylai'r cynnydd o £20 mewn Credyd Cynhwysol barhau y tu hwnt i fis Medi 2021
- Dylai budd-dal plant gael ei gynyddu fel ffordd uniongyrchol o gyfeirio arian yn uniongyrchol i deuluoedd sy'n cael anhawster
- Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio Cyllidebu Rhyw o gychwyn unrhyw benderfyniad cyllidebol, fel a nodir yn yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhyw, a sicrhau nad yw'r holl bolisïau a chyfreithiau, yn ogystal â phenderfyniadau cyllidebol sy'n ymateb i'r pandemig, yn effeithio ar fenywod mewn ffordd anghyfartal
- Dylai Incwm Cynhwysol gael ei dreialu gyda golwg i'w ddefnyddio fel offeryn ledled Cymru i ddiddymu tloedi a lleihau stigma ynghylch hawlwr budd-dal

5. GOFALU AM BLANT

Wrth ofyn beth oedd eu cyflogwr yn debygol o'i wneud os oeddent yn cael eu gorfodi i ymgymryd â chyfrifoldebau gofal plant ychwanegol; dywedodd 23% o fenywod ac 11% o ddynion mai'r ymateb mwyaf tebygol oedd y byddai eu cyflogwr yn rhoi amser di-dâl o'r gwaith iddynt. Mae hyn yn arbennig o bryderus wrth ystyried bod menywod yn dal i ymgymryd â lefelau uwch o ofal plant na dynion. Cyn mis Mawrth 2020, dywedodd 63% o fenywod eu bod yn gwneud y rhan fwyaf o ofal plant o gymharu ag 14% o ddynion. Roedd dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod yn teimlo fel bod y ddau bartner yn gwneud symiau cyfwerth o ofal plant (57% o dadau o gymharu â 31% o famau), ac roedd mamau wyth gwaith yn llai tebygol o ddweud bod euartneriaid yn gwneud y rhan fwyaf o'r gofal plant (3% o gymharu â 26% o dadau). Mae yna wahaniaeth clir rhwng canfyddiadau cyfrifoldebau gofalu cyfwerth rhwng menywod a dynion: mae mamau'n llawer mwy tebygol o ystyried eu hunain fel prif ofalwr ac mae tadau'n fwy tebygol o ystyried eu hunain fel gofalwr plant cyfrifol cyfwerth.

Ym mis Rhagfyr, roedd menywod yn dal i wneud mwy o'r gofal plant; 63% o fenywod o gymharu ag 17% o ddynion. Roedd y duedd hon hefyd yn amlwg ymhlith pobl BAME lle, cyn y cyfnod cyfyngiadau symud cyntaf ym mis Mawrth: dywedodd 65% o fenywod eu bod yn gwneud y rhan fwyaf o ofal plant o gymharu ag 5% o ddynion. Ym mis Rhagfyr, roedd 60% o fenywod BAME yn gwneud y rhan fwyaf o'r gofal plant, o gymharu â 10% o ddynion.

CANFYDDIADAU GOFAL PLANT

Cyn mis Mawrth 2020
DYWEDODD 63% O FENYWOD eu bod yn gwneud y rhan fwyaf o'r gofal plant o gymharu ag **14% O DDYNION**

DYWEDODD 31% O FAMAU eu bod yn gwneud swm cyfartal o ofal plant o gymharu â **57% O DADAU**

DYWEDODD 3% MOTHERS fod euartneriaid yn gwneud y rhan fwyaf o'r gofal plant o gymharu â **26% O DADAU**

TUDALEN 6

³ Roedd opsiynau'n cynnwys: 'Ar hyn o bryd rwy'n gweithio gartref a byddwn yn parhau i wneud hynny'; 'Byddai fy nghyflogwr yn rhoi amser o'r gwaith i mi'n ddi-dâl'; 'Byddai fy nghyflogwr yn rhoi amser i mi o'r gwaith â thâl llawn'; 'Byddai disgwyl i mi gymryd gwyliau blynyddol/absenoldeb salwch'; 'Nid wyf yn gweithio gartref ar hyn i bryd ond byddwn yn gallu gwneud hynny'; 'Ni fyddwn yn gallu cymryd amser o'r gwaith a byddwn yn colli fy swydd'; 'Arall'; 'Ddim yn gwybod'.

Mae'r un peth yn wir am oruchwyllo plant hŷn: ymhlith yr holl ymatebwyr, cyn mis Mawrth 2020, roedd 60% o fenywod ac 17% o ddynion yn gwneud y rhan fwyaf o oruchwyliaeth plant wrth wneud rhywbeth arall (er enghraifft chwarae, gwyllo'r teledu). Ar hyn o bryd y ffigurau yw 58% o fenywod a 24% o ddynion. Ymhlith pobl BAME, mae 53% o fenywod ac 20% o ddynion yn gwneud rhan fwyaf o oruchwyliaeth plant ar hyn o bryd. Cyn mis Mawrth 2020, dywedodd 2020, 48% o fenywod BAME ac 17% o ddynion BAME eu bod yn gwneud y rhan fwyaf o'r oruchwyliaeth plant.

Pan ofynnwyd i ymatebwyr 'Os yw meithrinfa/gofalwr plant/ysgol eich plentyn ar gau, neu mae'n rhaid i'ch plentyn hunanynysu oherwydd COVID-19, a'ch bod yn gorfod ymgymryd â chyfrifoldebau gofalu ychwanegol, p'un o'r canlynol rydych yn meddwl y byddai'n debygol o ddigwydd?' Dywedodd 30% o aelwydydd a oedd yn ennill llai nag £20,000 y flwyddyn 'Rwy'n gweithio gartref ar hyn o bryd a byddwn yn parhau i wneud hynny'; mae'r ffigur hwn yn codi 10% i'r aelwydydd hynny sy'n ennill mwy na £40,000 y flwyddyn. Dywedodd 13% o'r rheiny yn y grŵp cyflogau is, 'Nid wyf yn gweithio gartref ar hyn o bryd, ond byddwn yn gallu gwneud hynny', gydag 8% o'r aelwydydd mwy cefnog yn dweud yr un peth.

MAE RHCM CYMRU'N ARGYMELL Y CANLYNOL:

- Dylai cynnig gofal plant Llywodraeth Cymru alluogi rhieni i gael mynediad i ddarpariaethau gofal plant fforddiadwy o chwe mis oed, heb ots beth yw statws cyflogaeth y rhieni
- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi yn y sector gofal plant a meithrinfeidd i greu swyddi newydd a sicrhau gweithlu ymrwymedig ac amrywiol yn y sector
- Dylai gwyliau blynyddol ychwanegol gael ei roi i rheini sengl, fel sydd wedi digwydd yn yr Almaen, fel y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau gofal plant

6. GOFALU AM OEDOLION DIBYNNOL

Roedd cyfrifoldebau gofalu menywod wedi cynyddu yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud. Cyn mis Mawrth 2020, gwnaeth 29% o fenywod ac 11% o ddynion y rhan fwyaf o'r gwaith gofalu i berthnasau neu ffrindiau sy'n oedolion ac ar adeg ein harolwg, roedd 35% o fenywod a 12% o ddynion yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith gofalu hwn. Cyn mis Mawrth 2020, roedd 27% o fenywod BAME o gymharu ag 13% o ddynion BAME, yn gyfrifol am ofal oedolion dibynnol; nawr mae 26% o fenywod BAME yn gwneud y mwyafrif o ofalu am oedolion o gymharu ag 13% o ddynion BAME.

Wrth ofyn i'r rheiny oedd yn derbyn ffyrlo beth wnaeth gyfrannu at benderfyniad eu cyflogwr i'w rhoi ar ffyrlo, roedd aelwydydd ag incwm llai dair gwaith yn fwy tebygol (12%) na'r rheiny ar incwm uwch (4%) o ddweud eu bod yn derbyn ffyrlo fel eu bod yn gallu gofalu am oedolyn. I gymharu, roedd y rheiny a oedd yn derbyn ffyrlo i ofalu am blant yn cael eu cynrychioli bron yn gyfartal ar draws incwm aelwydydd ar o amgylch traean o ymatebwyr (30% i'r rheiny o aelwydydd incwm is, 34% o aelwydydd incwm uwch).

MAE RHCM CYMRU'N ARGYMELL Y CANLYNOL:

- Mae angen i gyflogwyr gydnabod bod gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio sy'n gofyn i weithwyr fod yn ofalwyr, yn aml i berthnasau hŷn a phlant ar yr un pryd
- Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn economi gofalgar sy'n gwerthfawrogi ac sy'n gwobrwyo gofal di-dâl cyfredol, yn unol ag argymhellion adroddiad y Grŵp Cyllidebu Menywod ⁴

7. CYFRIFOLDEBAU'R AELWYD

Ynghyd â chyfrifoldebau gofal plant a gofalu, mae menywod yn dal i wneud y rhan fwyaf o'r gwaith tŷ. Gwnaethom arolygu'r rheiny mewn aelwydydd heterorywiol, dau riant a gwnaethant ddweud cyn y pandemig, fod 72% o fenywod ac 17% o ddynion yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith tŷ (h.y. glanhau a gwneud y golch) ac yn ystod y pandemig, fe wnaeth hyn newid gyda 71% o fenywod a 22% o ddynion yn dweud eu bod yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith hwn.

Fodd bynnag, dywedodd 46% o dadau fod y gwaith hwn yn cael ei wneud yn gyfartal ganddyn nhw a'u partneriaid benywaidd, o gymharu â 24% yn unig o famau yn dweud yr un peth am eu partneriaid gwrywaidd – cyn y pandemig, roedd y ffigurau hyn yn debyg 43% a 22% yn ôl eu tro. Dengys yr ystadegau hyn fod oddeutu hanner y tadau'n meddwl eu bod yn gwneud rhan gyfwerth o'r gwaith tŷ, gyda mamau'n dweud bod y gwaith yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng partneriaid yn chwarter yn unig o aelwydydd.

Ymhlith ymatebwyr BAME, cafwyd cynnydd yn swm y gwaith tŷ sy'n cael ei wneud gan fenywod; cyn mis Mawrth 2020, roedd 57% o fenywod a 7% o ddynion yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith tŷ ac ar adeg ein harolwg, roedd 71% o fenywod ac 13% o ddynion yn gyfrifol am y gwaith hwn. Fel gyda'r boblogaeth ehangach, mae yna wahaniaeth mewn canfyddiad o ran pwy sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith tŷ, gyda 7 allan o 10 menyw BAME yn dweud eu bod yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith tŷ gydag 1% o fenywod yn dweud bod eu partner gwrywaidd yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith. Dim ond chwarter o'r menywod a ddywedodd fod y gwaith hwn yn cael ei rannu'n gyfartal. O gymharu, dywedodd 55% o ddynion fod y gwaith hwn yn cael ei rannu'n gyfartal, gydag 13% yn dweud mai nhw oedd yn gwneud y mwyaf, a 30% yn dweud bod llawer o'r gwaith tŷ yn cael ei wneud gan eu partner benywaidd.

Yn derfynol, gwnaeth yr arolwg ddangos fod menywod yn dal i wneud y rhan fwyaf o'r siopa am nwyddau angenrheidiol a bwyd cyn mis Mawrth 2020, dywedodd 62% o fenywod a 30% o ddynion eu bod yn gyfrifol am yr holl siopa. Ar adeg ein harolwg, mae 60% o fenywod a 37% o ddynion yn gyfrifol am siopa am fwyd a nwyddau angenrheidiol. Ymhlith ymatebwyr BAME, mae'r ffigur hwn yn fwy cyfartal; cyn mis Mawrth 2020, dywedodd 52% o fenywod a 53% o ddynion ei bod yn gyfrifol am siopa ac yn ystod y don gyntaf, y ffigur oedd 38% o fenywod a 60% o ddynion.

TUDALEN 8

⁴ Creu Economi Gofalgar: galw i weithredu <<https://wbg.org.uk/analysis/creating-a-caring-economy-a-call-to-action-2/>>.

MAE RHCM CYMRU'N ARGYMELL Y CANLYNOL:

- Mae angen mynd i'r afael â stereoeteipiau rhyw mewn ysgolion ac nid eu hatgyfnerthu
- Mae angen parhau â'r ymdrech barhaus i gondemnio stereoteipiau yn y cyfryngau, megis gyda'r Comisiynydd Safonau Hysbysebu, gyda theganau nad ydynt yn annog merched i 'chwarae tŷ' ac i fechgyn fynd ar 'anturiaethau'
- Gwnaeth Llywodraeth Cymru lansio ymgyrch codi ymwybyddiaeth i frwydro yn erbyn stereoteipiau rhyw

AMDANOM NI

Cynhaliwyd yr ymchwil hon gan Grŵp Cyllideb Menywod y DU, Cymdeithas Fawcett, Grŵp Cyllideb Menywod Gogledd Iwerddon, Close the Gap ac Engender. Ariannwyd yr ymchwil hon gan Ymddiriedolaeth Standard Life ac Ymddiriedolaeth Ddiwygio Joseph Rowntree.

Ymddiriedolaeth Standard Life

Mae Ymddiriedolaeth Standard Life wedi cefnogi hyn fel rhan o'i chenhadaeth i gyfrannu at newid strategol sy'n gwella llesiant ariannol yn y DU. Mae'r ymddiriedolaeth yn ariannu ymchwil, gwaith polisi a gweithgareddau ymgyrchoedd i fynd i'r afael â phroblemau ariannol a gwella safonau byw i bobl ar incwm isel i ganolig yn y DU. Ymddiriedolaeth elusennol annibynnol ydyw wedi'i chofrestru yn yr Alban (SC040877).

Ymddiriedolaeth Ddiwygio Joseph Rowntree

Ariannwyd yr astudiaeth hon gan Ymddiriedolaeth Ddiwygio Joseph Rowntree (JRRT). Gan ymateb i'r argyfwng cynyddol o ddemocratiaeth ac erydiad ymddiriedaeth yn y dosbarth a'r sefydliadau gwleidyddol, mae maes gwaith blaenoriaethol JRRT yn cynnwys cynhyrchu grantiau a gweithgareddau allanol er diwygiad democrataidd a gwleidyddol.

